**LGH-02-01 (p.4)**

## PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## CYFLWR CHWARAE

### Diben

1. Gwahodd y pwyllgor i nodi’r adroddiad *"Cyflwr Chwarae"* (Adolygiad o Ddarpariaeth Chwarae Mynediad-Agored yng Nghymru a Chynllun Grant Chwarae 2000, a gomisiynwyd gan y Cynulliad fel rhan o fenter Chwarae 2000.

### Amseru

2. Arferol.

### Crynodeb/Argymhellion

3. Nodi’r adroddiad, a’r camau gweithredu a gynigir fel ymateb.

### Cefndir

4. Darparodd y Cynllun Grant Chwarae 2000 £1 miliwn ar gyfer 2000-2001 trwy gyfrwng Adroddiad Grant Arbennig a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 9 Mai 2000, i wella cyfleusterau chwarae mynediad-agored i blant mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru. Fe’i ariannwyd gan yr Ysgrifennydd Cyllid o’r arian hyblyg diwedd y flwyddyn.

5. Er mwyn sicrhau bod yr effaith yn gynaliadwy, cytunwyd i ddefnyddio swm bach o arian grant (£30,000) i gynnal adolygiad ehangach o chwarae plant a fyddai’n cyfrannu at drafodaethau’r Cynulliad yn y dyfodol.<0} {0>The Play Study Co-ordinator was Marianne Mannello, a secondee from Interlink, the Rhondda Cynon Taf Association of Voluntary Organisations.<}0{>Cydlynydd yr Astudiaeth Chwarae oedd Marianne Mannello, a oedd ar secondiad o Interlink, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Rhondda Cynon Taf. Cyfarfu cynrychiolwyr CLlLC a Chwarae Cymru gyda swyddogion yn rheolaidd i roi cyngor ynghylch y prosiect. Golygwyd yr adolygiad gan June Statham o Uned Ymchwil Thomas Coram, Athrofa Addysg Prifysgol Llundain.<0}

6. Gofynnwyd i’r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc adrodd ar y modd y defnyddiwyd grant Chwarae 2000 neu’r modd y bwriadwyd ei ddefnyddio. Roedd yr Astudiaeth yn cynnwys barn

darparwyr a chyrff allweddol sy’n ymwneud â darparu cyfleusterau chwarae yng Nghymru. Awdurdodau lleol oedd y rhain yn bennaf, trwy eu gwasanaethau hamdden a mwyniannau a fforymau chwarae sy’n gweithio fel cyrff ambarél yn cynrychioli ac yn hyrwyddo buddiannau chwarae. Cafwyd ymatebion gan bob Partneriaeth ynghylch y modd y gwariwyd y grant.

**Cyngor**

7. Mae’r adroddiad yn rhoi saith argymhelliad allweddol

**Argymhelliad 1:** Dylai’r Cynulliad sefydlu grp oll-bleidiol i ystyried sut i ddatblygu fframwaith polisi cydlynus ar chwarae i Gymru, ac i sefydlu lle dylai’r cyfrifoldeb dros ddarpariaeth chwarae fod.

**Argymhelliad 2:** Dylai pob awdurdod gael eu hannog i ddatblygu polisi a strategaeth chwarae mewn cydweithrediad â’r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill, wedi eu hanelu at sicrhau y caiff Erthygl 31 Confensiwn y Deyrnas Unedig ar Hawliau’r Plant ei weithredu’n llawn.

**Argymhelliad 3:** Dylid parhau â’r gynsail o neilltuo cyllid yn benodol i ddatblygu darpariaeth chwarae mynediad agored, yn amodol ar ganlyniadau trafodaethau’r grp polisi ollbleidiol. Profodd dyraniad drwy’r Partneriaethau Plant a Ieuenctid yn rhesymol lwyddiannus.

**Argymhelliad 4:** Bydd cyllid yn fwy effeithlon wrth ddatblygu dynesiad strategol at chwarae os medrir ei warantu am fwy na blwyddyn ar y tro. Beth bynnag, mae angen ei gyhoeddi gyda digon o amser ar gyfer ymgynghori a chynllunio, a gyda meini prawf clir ar gyfer y mathau o ddarpariaeth sy'n gymwys.

**Argymhelliad 5:** Mae angen cryfhau’r isadeiledd ar gyfer cefnogi a datblygu darpariaeth chwarae mynediad agored ledled Cymru. Mae Chwarae Cymru mewn sefyllfa dda i gynorthwyo gyda’r dasg hon, gan i’r corff weithio’n agos gyda darparwyr chwarae statudol a gwirfoddol yn y rhan fwyaf o rannau o Gymru. Byddai cynyddu’r cyllid y mae’r corff yn ei dderbyn gan y Cynulliad yn ei alluogi i ehangu ei weithgareddau yn y maes hwn.

**Argymhelliad 6:** Dylai'r Cynulliad drafod mater gwella ansawdd mewn darpariaeth chwarae mynediad agored, ac ystyried os y medrir argymell y fframwaith Asesu Ansawdd sy'n cael ei ddatblygu gan Chwarae Cymru fel y sail ar gyfer gwella safonau'n genedlaethol. Dylid hysbysu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru o'r angen i ddatblygu safonau priodol ar gyfer rheoleiddio darpariaeth chwarae a gweithwyr chwarae, mewn ymgynghoriad gyda sefydliadau megis Chwarae Cymru.

**Argymhelliad 7:** Os yw'r Cynulliad angen gwybodaeth ar wariant ar chwarae, bydd angen iddo roi diffiniadau o dermau fel 'chwarae mynediad agored' a chyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar y penawdau cyllideb sydd eu hangen, fel y darperir gwybodaeth ar ffurf gyson.

8. Yng ngoleuni argymhelliad 1, bydd swyddogion yn gofyn am ddiddordeb mewn tendro am lunio fframwaith polisi, yn cynnwys ystyried yr argymhellion eraill, fel ag y bo'n briodol. Wedyn, gellir dychwelyd y gwaith hwn i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei ystyried. Yn y cyfamser, dosberthir yr adroddiad i awdurdodau lleol ac eraill sy'n ymwneud â chwarae, er gwybodaeth.

9. Mae'r gyllideb a gymeradwywyd ar 7 Rhagfyr 2000 yn cynnwys darpariaeth o fewn y Gronfa Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i barhau â'r Grant Chwarae yn 2001-02 ar lefel o £1 miliwn. Mae hefyd ddarpariaeth ariannu yn y dyfodol, yn 2002-2003 a 2003-2004, yn amodol ar ei gymeradwyo gan y Cynulliad. O ran 2000-01, pan ariannwyd y cynllun gydag arian hyblyg diwedd y flwyddyn, roedd yn rhaid i bartneriaethau lunio cynllun ar gyfer yr un flwyddyn ariannol, a'i weithredu. Ar gyfer 2001-02, hysbyswyd cydlynwyr y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc o'u dyraniadau tuag at chwarae mewn cynhadledd ar 12 Rhagfyr, a gofynnwyd iddynt ddechrau cynllunio. Cawsant y dewis o ddychwelyd y cynlluniau erbyn 15 Chwefror os ydynt am gael cymeradwyaeth cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, neu erbyn 1 Mai os ydynt am gael mwy o amser i gynllunio ac ymgynghori. Anfonwyd y llythyr comisiynu cynlluniau hefyd at fforymau chwarae lleol, Chwarae Cymru, CLlLC, cynghorau gwirfoddol sirol a chynghorau cymuned, er mwyn helpu â'r ymgynghori.

**Cydymffurfio**

10. Cyhoeddwyd y Grant Chwarae 2000 o dan adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, sy'n pennu'r modd y dyfernir grantiau arbennig y gall y Cynulliad eu talu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru ("awdurdodau"). Trosglwyddwyd pwerau o dan y Ddeddf hon i'r Cynulliad ac fe'u dirprwywyd trwy'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i swyddogion yn yr Is-adran Plant a Theuluoedd.

11. Nid oes unrhyw faterion priodoldeb na chywirdeb. Mae Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad wedi gweld yr hyn a gyflwynwyd ac mae'n fodlon ar yr agweddau cydymffurfio.

## Goblygiadau Ariannol

12. Talwyd am gost yr adroddiad hwn o gyllideb Cronfa Cynhwysiant Cymdeithasol 2000-2001 – Cronfa Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc sydd yn nwylo'r Is-adran Plant a Theuluoedd. Talwyd am unrhyw waith yn gysylltiedig â gweinyddu'r adroddiad hwn o gyllideb costau gweinyddu presennol yr Is-adran Plant a Theuluoedd. Telir am gostau'r contract ar gyfer datblygu polisi chwarae o'r cyfanswm o £14 miliwn sydd ar gael i'r Gronfa Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn 2001-02.

13. Fel y nodwyd uchod, mae darpariaeth ar gyfer cyllido chwarae yng nghyllidebau dynodol y Gronfa Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc o 2001-02 ymlaen. Byddai gofyn ymdrin ag unrhyw ofynion ychwanegol yn codi o'r polisi chwarae arfaethedig yng nghylchoedd cynllunio cyllideb y dyfodol.

## Gweithredu

14. Gwahoddir y pwyllgor i nodi'r adroddiad *"The State of Play"* a'r modd o weithredu a gynigir.

**Cyswllt:** Alison Kitchener, Yr Is-adran Plant a Theuluoedd, Est 5736